# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Clive Lloyd | Adran Etholiadol: | St Thomas |
|---|---|---|---|

| **Portffolio'r Cabinet/y Weithrediaeth:** | Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad o fis Medi 2014. |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Roedd 2014-2015 yn flwyddyn brysur iawn unwaith eto i gynghorwyr St Thomas. Cynhaliwyd cymorthfeydd ward rheolaidd mewn gwahanol leoliadau ar draws y ward, sef Neuadd Eglwys St Thomas, Canolfan Gymunedol Port Tennant, Gwyn Mission, Neuadd Eglwys Illtud Sant a Neuadd Eglwys Bae Fabian, gan newid bob yn ail ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis.

Es i hefyd i nifer o ddigwyddiadau cymunedol gan gynnwys carnifal Eastside, cyngherddau a Second Chance GSP a gynhelir bob dydd Mercher.

Yn ogystal, rydym yn cynnal tri chyfarfod preswylwyr mewn gwahanol leoliadau sy'n ymwneud â phynciau penodol megis prifysgolion newydd a chasglu gwastraff.

Ymdriniais ag amrywiaeth eang o faterion pob dydd, gan gynnwys y canlynol: tai, parcio (gan gynnwys parcio i breswylwyr), baw cŵn, tyllau ffordd, llwybrau bysus (llwyddwyd i sefydlu safle bws ychwanegol ger Ganolfan Feddygol Beacon), torri coed a llwyni, a gorchmynion rheoleiddio cludiant newydd e.e. llinellau melyn a llinellau melyn dwbl a chynllunio – gwnaethom ymdrin â nifer o faterion cynllunio e.e. Ffordd Fabian/Rhes Bevan a Rheoli Gwastraff. Byddwn yn parhau i ymgyrchu dros sicrhau bod rheoleiddio terfyn ar nifer y tai amlbreswyl a ganiateir mewn unrhyw ardal benodol.

Rwyf wedi defnyddio Tîm NEAT y cyngor i glirio'r llu o lonydd yn St Thomas. Yn ogystal, roeddwn yn rhan o fenter Trefi Taclus i wella'r ardal ger y fynedfa i feysydd chwarae Ashland gan osod rhagor o finiau baw cŵn, meinciau, biniau sbwriel etc.

Roeddwn yn cydgysylltu â phreswylwyr a bydd yn sicrhau y caiff y cyfarfod cymunedol ynglŷn â safle tirlenwi Tir John ei gynnal o hyd.

Yn fy rôl fel cynghorydd, roeddwn yn derbyn tocynnau o bryd i'w gilydd i weld yr Elyrch a'r Gweilch ac mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu i'n dwy ysgol leol a grwpiau cymunedol megis Grŵp Partneriaeth GSP.

Mae Port Tennant yn Ardal Cymunedau'n Gyntaf a bues yn mynychu cyfarfodydd Clwstwr Partneriaeth Port Tennant ac Eastside Cymunedau'n Gyntaf, gan sicrhau y cyflwynwyd prosiectau haeddiannol ar gyfer ward St Thomas.

Cadeirydd llywodraethwyr Ysgol Gynradd Danygraig ac yn un o lywodraethwr yr ALI yn Ysgol Gymunedol St Thomas.

Roeddwn yn wirfoddolwr yng Nghronfa Fwyd Eastside.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir uchod % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Y Cabinet | 10 | / | 11 | 91 | % |
| Y Cyngor | 16 | / | 17 | 94 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 | / | 7 | 71 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 7 | / | 10 | 70 | % |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 4 | / | 6 | 67 | % |
| Pwyllgor Safonau | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 0 | / | 3 | 0 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **61** | **/** | **77** | **79** | **%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu | | | | | |
| Gwasanaethau Cynllunio | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **0** | **/** | **1** | **0** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Ym mis Medi 2014 cefais fy mhenodi i gabinet y cyngor gyda chyfrifoldeb dros drawsnewid a pherfformiad. O ganlyniad bu cynnydd yn fy nghyfrifoldebau wrth i mi hybu gwelliant ym mherfformiad y cyngor ac arwain newid diwylliannol a thrawsnewidiol.

Rhwng mis Mai a mis Medi 2014, roeddwn yn aelod o Bwyllgor Rheoli Adnoddau Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Roeddwn ac rwy'n parhau i fod yn gynrychiolydd/aelod o'r canlynol:

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Medi 2014 hyd yma
Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus
Cwmni Gwaredu Gwastraff yr Awdurdod Lleol
Fforwm Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru
Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe
Bwrdd Rheoli Consortiwm Prynu Cymru

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Yn 2014-2015 cafwyd cryn gynnydd o ran mentrau pwysig i Abertawe sy'n cael eu lleoli yn Eastside, sef Morlyn Llanw Bae Abertawe, campws newydd Prifysgol Abertawe a chynigion PCDDS am gampws newydd yn SA1. Roeddwn yn rhan o drafodaethau rheolaidd ynghylch yr holl brosiectau hyn ar ran y gymuned a byddwn yn parhau i fod.

Gydag arian gan Ganolfan yr Amgylchedd Abertawe, roeddwn yn ymwneud â phrosiect i ddisodli oergelloedd/rhewgelloedd a oedd yn creu lefel uchel o allyriadau. Roedd hyn yn arbennig o lwyddiannus ac roedd mwy o bobl am fod yn rhan ohono nag yr oedd lle ar eu cyfer.

Roeddwn yn darparu cefnogaeth i grŵp llwyddiannus Cyfeillion Parc Polly ym Mharc Cilfái/Grenfell.

Roeddwn yn parhau i weithio gyda Grŵp Cymunedol GSP i ddatblygu'r pafiliwn ym Mharc Jersey. Y gobaith yw y caiff hyn ei gwblhau yn 2015.

Roeddwn hefyd yn cyfrannu at brosiect Trefi Taclus yng Nghanolfan Gymunedol Ashland.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Es i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

17/04/2015 - Pwyllgor Safonau a Chôd Ymddygiad
07/04/2015 - Ymwybyddiaeth Masnachu Pobl a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant
09/12/2014 - Difenwi
12/11/2014 - Recriwtio a Dethol
13/10/2014 - Diogelu
14/08/2014 - Manteisio i'r Eithaf ar eich Tabled/Ffôn Clyfar
04/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
03/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl fel Rheolwr Data)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**
*Mae'r adran hon er mwyn i chi nodi unrhyw beth arall rydych yn meddwl y dylai'ch etholwyr fod yn ymwybodol ohono.*

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 tan 17 Medi 2014
Cyflog Uwch: £32,000 o 17 Medi 2014

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 31.05.2015 |